# Tystiolaeth Ysgrifenedig i'r Pwyllgor Menter a Dysgu

## Gweithredu *Adnewyddu'r Economi: cyfeiriad newydd*

### 1. Diben

Diben y papur hwn yw cyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor Menter a Dysgu i'w helpu i graffu ar y gwaith o weithredu *Adnewyddu'r Economi: cyfeiriad newydd*.

### 2. Crynodeb

Mae'r papur hwn yn ymhelaethu ar ymateb Llywodraeth y Cynulliad i rai o'r argymhellion a wnaeth y pwyllgor ym mis Rhagfyr, fel y gofynnodd y pwyllgor ar 21 Ionawr. Mae hefyd yn amlinellu sut mae'r gwaith o weithredu'r rhaglen wedi datblygu ers cyflwyno'r dystiolaeth ysgrifenedig ddiwethaf ym mis Hydref.

### 3. Ymateb i Argymhellion y Pwyllgor

Mae'r pwyllgor wedi gofyn am fwy o fanylion am yr ymatebion i rai o'i argymhellion.

*Cais – Hoffem i chi wneud sylwadau pellach ar y trefniadau pontio [ar gyfer cymorth i fusnesau] a oedd ar waith ym mis Gorffennaf 2010 yn dilyn cyhoeddi Rhaglen Adnewyddu'r Economi, a'r trefniadau sydd bellach ar waith i gynorthwyo busnesau; sut mae'r cymorth hwnnw'n cael ei gyfleu i'r sector; a'r amserlen ar gyfer cyflawni hyn i gyd.*

Rydym yn gwerthfawrogi y gallai ein penderfyniad sydyn i newid ein meini prawf ar gyfer cymorth ariannol i fusnesau fod wedi achosi anawsterau i gwmnïau yr oedd eu ceisiadau eisoes yn cael eu hystyried, neu a oedd bron â gorffen paratoi eu ceisiadau. I osgoi hyn, cafodd pob cais a oedd eisoes yn cael ei ystyried ar gyfer cymorth i fusnesau ar 5 Gorffennaf ei ystyried ar gyfer y Gronfa Fuddsoddi Sengl (SIF) o dan y telerau ac amodau cyfredol. Cafodd ceisiadau a dderbyniwyd hyd at 31 Awst hefyd eu hystyried o dan y rhaglen SIF, a dyfarnwyd cyllid i geisiadau o safon uchel fel oedd yn briodol.

Cafodd y system newydd o gymorth ariannol ad-daladwy ei rhoi ar waith ar 1 Medi 2010. Mae pob cais am gyllid a dderbyniwyd ers hynny wedi cael ei ystyried o dan y ffordd newydd o weithio. Roedd y dull hwn yn golygu nad oedd y meini prawf yn newid tra bod cais unrhyw gwmni yn cael ei ystyried neu ei gwblhau ac roedd yn galluogi'r ffyrdd newydd o weithio i gael eu rhoi ar waith yn deg. Rydym yn parhau i fonitro a gwella ein prosesau ar gyfer dyfarnu cymorth ariannol ad-daladwy i sicrhau bod pawb yn elwa. Oherwydd hyn, penderfynwyd gwrthod argymhelliad y pwyllgor i leihau cyllid yn raddol.

Trwy gydol y cyfnod pontio, cadwyd y ganolfan gyswllt (03000 6 03000) ar agor fel y gallai busnesau ac unigolion gysylltu â ni gydag unrhyw gwestiynau oedd ganddynt. Rydym wedi cysylltu â busnesau'n uniongyrchol trwy negeseuon e-bost, sy'n cynnwys dolenni i'n gwefan. Yn ddiweddar, aethom ati i ddosbarthu deunyddiau cyfathrebu yn amlinellu'r cynigion i fusnesau, gan

gynnwys canllaw sy'n targedu BBaChau yn benodol. Erbyn hyn, mae'r wefan a'r URL wedi'u diweddaru'n llawn, felly mae'r holl wybodaeth a gyhoeddir ar y we'n gyson.

Fe wnaethom dderbyn y gellid bod wedi gwneud mwy i gyfleu'r wybodaeth hon i fusnesau, ac rydym wedi mynd ati i wella ein perfformiad yn y maes hwn yn sgil hynny. Trwy benodi'r holl baneli sector a chynnwys grwpiau rhanddeiliaid fel Cyngor Adnewyddu'r Economi, gall ein deunyddiau cyfathrebu a'n cymorth gael eu targedu'n well lle mae'r angen mwyaf. Bydd cyfathrebu ac ymgysylltu â'n rhanddeiliaid yn flaenoriaeth dros y misoedd nesaf.

*Argymhelliad 3 – Hoffem wybod sut yr ydych yn bwriadu targedu a monitro effaith gweithgarwch y Llywodraeth i geisio annog arloesi. Hefyd, hoffem i chi esbonio sut y bydd y Llywodraeth yn annog arloesi a fydd yn ateb galw'r farchnad fyd-eang, yn ogystal ag annog arloesi heb orwelion.*

Y broblem gyda defnyddio canran y GYC a gynhyrchir trwy ymchwil a datblygu i fonitro arloesedd yw nad yw'n rhoi sylw i'r amrywiaeth lawn o weithgareddau sy'n rhan o'r maes "arloesedd". Byddwn yn olrhain cyfran y GYC y gellir ei briodoli i ymchwil a datblygu fel rhan o gyfres o ddangosyddion olrhain, gan gynnwys arolwg safonol o weithgarwch arloesi. Bydd hyn yn rhoi darlun mwy cyflawn na dibynnu ar un dangosydd rhannol.

Bydd ein gweithgarwch sy'n ceisio annog arloesi yn targedu'r meysydd hynny a amlinellir yn *Adnewyddu'r Economi: cyfeiriad newydd*. Er enghraifft, trwy'r rhaglen Arloesi ar gyfer Busnes, byddwn yn annog busnesau mewn sectorau allweddol i fuddsoddi mewn ymchwil a datblygu a manteisio ar ei botensial masnachol. Byddwn hefyd yn gwneud gwaith i hyrwyddo Cymru fel rhanbarth arloesol, i sicrhau bod busnesau'n ymwybodol o'r cyfleoedd i arloesi ac i sicrhau'r defnydd mwyaf posibl o gyllid ymchwil allanol. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ymrwymo i gefnogi arloesi a arweinir gan y farchnad. Fel yr amlinellwyd eisoes, mae angen strategaeth fasnacheiddio ar gyfer pob buddsoddiad y mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei wneud tuag at ymchwil a datblygu ac arloesi.

Byddwn hefyd yn gweithio i wella gallu Sefydliadau Addysg Uwch ac Addysg Bellach i weithio gyda busnesau a sicrhau bod buddsoddiadau'n cael eu defnyddio er lles economi Cymru. Mae yna nifer o fentrau a grwpiau ymchwil yng Nghymru sydd wedi llwyddo i ennill symiau sylweddol o gyllid gan y Cyngor Ymchwil, megis y Ganolfan Cyngor Ymchwil Feddygol mewn Geneteg a Genomeg Niwroseiciatrig ym Mhrifysgol Caerdydd, a phartneriaeth Prifysgol Abertawe gyda Rolls Royce. Fodd bynnag, mae cyfran Cymru o incwm y cyngor ymchwil yn is na'r targedau rydym wedi'u gosod. I gefnogi arloesi yng Nghymru ymhellach, rydym yn ceisio sbarduno ad-drefnu a chydweithredu rhwng Sefydliadau Addysg Uwch i gynyddu maint a chwmpas grwpiau ymchwil yng Nghymru.

*Argymhelliad 5 – Byddem yn ddiolchgar pe gallech egluro eich ymateb i Argymhelliad 5 a rhoi manylion pellach am y gwahanol ddewisiadau yr ydych yn eu hystyried [i wella darpariaeth cyllid i fusnesau].*

Rydym yn derbyn y gallai ein hymateb i'r argymhelliad hwn fod wedi bod yn gliriach. Er ein bod yn cytuno bod y drefn o gael gafael ar gyllid yn peri pryder, rydym yn awyddus i fynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n wynebu cwmnïau wrth geisio cael gafael ar gyllid o wahanol safbwynt. Mae'r gwaith a wnaed i nodi bylchau yn narpariaeth cyllid masnachol wedi dangos bod angen i ni ganolbwyntio ar fynd i'r afael â'r bwlch yn narpariaeth cyfalaf twf. Y ffordd orau o wneud hyn yw trwy hwyluso a throsoleddu gweithgarwch sector preifat i fynd i'r afael â'r bwlch hwn, yn hytrach na cheisio ymyrryd yn uniongyrchol yn y farchnad fasnachol.

Penderfynwyd gwrthod yr argymhelliad yn ymwneud â banc y gymuned fusnes gan ei fod yn ymwneud â chyllid ar gyfer busnesau newydd/cyfnod cynnar yn hytrach na chyllid ar gyfer twf. Rydym yn cydnabod yr anawsterau sy'n wynebu busnesau o'r fath; amlinellodd yr ymateb gwreiddiol gamau eraill sy'n cael eu cymryd i gefnogi'r busnesau hyn. Rydym wedi nodi'r gwaith sy'n cael ei wneud i bennu'r galw am sefydlu marchnad fondiau. Er bod ystyriaethau cychwynnol wedi edrych ar fanteision sefydlu marchnad o'r fath (a gall y Panel Sector ddewis rhoi ystyriaeth bellach i'r mater fel rhan o'i raglen waith), er mwyn i'r cynnig gael ei ystyried o ddifrif, bydd angen iddo gael ei arwain gan y sector preifat.

Mae'r dewisiadau sy'n cael eu hystyried ar hyn o bryd i wella darpariaeth cyllid, o ran cyflenwi cyfalaf twf, yn cynnwys:

- ceisio dylanwadu ar y gwaith o gynllunio a darparu Cronfa Twf Busnesau newydd y DU;
- cyflwyno swyddogaeth broceriaeth newydd ar draws sectorau i feithrin cysylltiadau rhwng busnesau addawol a darpar fuddsoddwyr; a
- cheisio ysgogi mwy o fuddsoddiad sector preifat trwy drosoleddu buddsoddiad sector cyhoeddus (rydym wrthi'n holi barn y farchynad ar y ffordd fwyaf ymarferol yn fasnachol o wneud hynny).

Rydym hefyd yn gweithio gyda rhanddeiliaid i fynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n wynebu busnesau o ran gwybod pa gyllid sydd ar gael a beth sydd angen ei wneud i gael gafael arno.

*Argymhelliad 7 – Nid ydym yn gweld sut y byddai cytuno i ystyried partneriaethau cyhoeddus/preifat fel model cyflenwi [ar gyfer band eang y genhedlaeth nesaf] yn llesteirio arloesedd nac yn cael ei ystyried yn anhyblyg, a byddem yn ddiolchgar pe gallech esbonio'r sail i'ch ymateb i Argymhelliad 7.*

Unwaith eto, rydym yn derbyn y gallai ein hymateb i'r argymhelliad hwn fod wedi bod yn gliriach. Yr hyn yr oedd ein hymateb yn ei fynegi oedd pryder pe bai'n ymddangos ein bod yn ffafrio dull darparu yn y cyfnod hwn, gan gynnwys partneriaethau cyhoeddus/preifat, gellid ystyried ein bod wedi pennu'r model yr ydym yn ei geisio, a byddai hyn felly yn llesteirio arloesedd. Byddwn yn ystyried yr holl fodelau masnachol ar gyfer ymestyn band eang i geisio dod o hyd i'r ffordd fwyaf effeithiol o gyflwyno band eang y genhedlaeth nesaf am y gost leiaf i bwrs y wlad.

Yn ein digwyddiad ar 26 Ionawr (a oedd yn ceisio hyrwyddo caffael band eang y genhedlaeth nesaf i'r diwydiant telathrebu), gwahoddwyd darpar gyflenwyr i ddechrau ystyried sut y byddent yn mynd ati i weithio gyda ni i wella cwmpas band eang yng Nghymru.

## 4. Cyflawni ein Hymrwymiadau: y diweddaraf

Rydym wedi parhau i wneud cynnydd cyflym o ran gweithredu *Adnewyddu'r Economi: cyfeiriad newydd*. Mae'r adran ganlynol yn rhoi amlinelliad manwl o'r hyn yr ydym wedi'i gyflawni ers cyflwyno'r dystiolaeth ysgrifenedig ddiwethaf i'r Pwyllgor ym mis Hydref. Mae'n edrych yn addawol y byddwn yn cyflawni'r rhan fwyaf o'n hymrwymiadau o fewn yr amserlenni a nodwyd. Amlinellir yr amserlenni hyn o dan y 5 thema yn *Adnewyddu'r Economi: cyfeiriad newydd*.

Gan fod y paneli sector ar waith a'r strwythurau staff wedi'u llenwi'n ddigonol, rydym yn symud o'r cyfnod gweithredu i'r "sefyllfa arferol". Mae hyn yn dod yn rhan o'r ffordd mae Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio, yn hytrach na chyfeiriad polisi newydd.

### a) Buddsoddi mewn seilwaith cynaliadwy o safon uchel

Mae band eang y genhedlaeth nesaf yn rhan allweddol o'r gwaith o ddarparu'r seilwaith sydd ei angen i sicrhau y gall ein heconomi ffynnu. Rydym wedi cwblhau mynd ati i ganfod diddordeb y farchnad ac wedi cyflwyno Hysbysiad Rhagrybuddio i gyfnodolyn swyddogol yr Undeb Ewropeaidd (OJEU) ar 20 Rhagfyr. Mae hwn yn gyfnod allweddol yn y broses gaffael ar gyfer band eang y genhedlaeth nesaf, ac rydym yn hyderus y byddwn yn cyhoeddi'r hysbysiad contract ym mis Chwefror.

Rydym wrthi'n nodi safleoedd symudol gyda'r nod o'u cynnwys yn y broses caffael band eang y genhedlaeth nesaf fel "lleoliadau busnes sy'n talu cyfraddau busnes" i sicrhau band eang cyflym ar gyfer pob safle symudol. Mae hyn yn rhan allweddol o'r gwaith o alluogi cwmnïau symudol i gynnig gwasanaeth rhwydwaith o safon uchel mewn ardaloedd mwy anghysbell. Rydym yn datblygu Cynllun Gweithredu a phapur argymhellion i fynd i'r afael â gallu symudol, a chaiff y ddau eu cyhoeddi yn ystod gwanwyn 2011.

Ar gyfer seilwaith safleoedd busnes, rydym wedi adolygu ein hasedau eiddo a nodi eiddo y gellir ei werthu yn 2011/12. Bydd y rhaglen marchnata a gwerthu'n dechrau ym mis Chwefror. Rydym yn hyderus y byddwn yn llwyddo i gyflawni'r derbynebau angenrheidiol ar gyfer ariannu ein hymrwymiadau o ran band eang y genhedlaeth nesaf.

Mae'r gwaith o adolygu Cronfa Ddata Eiddo Cymru a'i gallu i ddarparu gwybodaeth am y farchnad wedi dechrau. Bydd yr adolygiad yn nodi sut y gallwn ddarparu gwybodaeth am ganfod eiddo addas yn fwy effeithiol i fusnesau. Rydym yn bwriadu ymgynghori â'r farchnad yn y gwanwyn. Mae ein

cynnig i fusnesau mewn ardaloedd lle mae'r farchnad yn cael ei ddatblygu, ac yn ceisio ei gwblhau erbyn blwyddyn ariannol 2011/12.

### b) Gwneud Cymru'n lle mwy deniadol i wneud busnes

Rydym yn ystyried treialu Cymorthfeydd Cynghori ar Gynllunio i helpu busnesau bach i ddeall y broses gynllunio'n well. Gallai'r rhain gael eu cynnal ledled Cymru yn ystod gwanwyn 2011. I wneud y system gynllunio'n haws ei deall, rydym yn datblygu canllaw ar-lein ar gyfer busnesau a gaiff ei lansio eleni.

Rydym wedi ymrwymo i wneud caffael yn fwy hygyrch i fusnesau. Bydd y gwaith o dreialu cronfa ddata gwybodaeth gymhwyso cyflenwyr ar-lein yn dechrau maes o law gyda'r nod o'i lansio ym mis Mai 2011. Mae disgwyl i'r Wefan Gaffael Genedlaethol gael ei lansio ym mis Mawrth.

Mae'r Dirprwy Brif Weinidog wedi siarad yn ddiweddar am yr angen i fywiogi brand Cymru, i fynd i'r afael â chanfyddiadau negyddol o Gymru. Mae cynigion ar gyfer ymgyrchoedd marchnata wedi'u datblygu ar gyfer gweithgarwch yng Nghymru a'r DU gan ddechrau ym mis Ionawr. Mae'r gwaith o ddatblygu fframwaith "Brand Cymru" bron wedi'i gwblhau a chaiff ei gyflwyno i Weinidogion maes o law.

Mae'r mater o effaith rheoleiddio ar fusnesau wedi codi dro ar ôl tro fel rhan o *Adnewyddu'r Economi*. Cafodd argymhellion adolygiad y Cwnsler Cyffredinol o'r broses ddeddfwriaethol eu hystyried gan y Cabinet ar 17 Ionawr. Bydd y Cwnsler yn ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Parhaol yn gofyn iddi ystyried yr argymhellion yn ymwneud â phrosesau gweinyddol gan mai hi sy'n gyfrifol am eu rhoi ar waith.

Mae'n bwysig bod y gweithlu'n teimlo'n iawn er mwyn gwneud ei orau yn y gwaith. Mae'r gwaith o ddatblygu Cynllun Gweithredu ar gyfer Iechyd, Gwaith a Lles yng Nghymru wedi dechrau, a chaiff ei gyflwyno i'r Gweinidog erbyn diwedd mis Mawrth 2010

### c) Ehangu a dyfnhau'r sylfaen sgiliau

Mae llwyddiant ein heconomi'n dibynnu ar i ba raddau mae'r gweithlu'n barod i ragori. Yn aml, mae hyn yn dibynnu ar sgiliau gweithwyr cyflogedig. Mae'r Rhaglen Adduned Cyflogwr ar ei newydd wedd bellach yn cael ei rhoi ar waith ledled Cymru i helpu pobl i ennill sgiliau sylfaenol. Byddwn yn cynnal gwerthusiad interim ar ddiwedd 2011 i sicrhau bod yr hyn yr ydym yn ei wneud yn gwneud gwahaniaeth lle bo angen. Mae gwerthusiad o ProAct wedi'i gwblhau ac yn dangos canlyniadau cadarnhaol iawn yn ymwneud ag effaith a gwerth am arian.

Mae swyddogion yn cyfarfod â busnesau angor a chwmnïau o bwys rhanbarthol i archwilio anghenion a datblygu cysylltiadau ymhellach. Cynhelir yr ymweliadau cyntaf ym mis Chwefror. Bydd cyfran o Raglen Datblygu'r Gweithlu yn cefnogi buddsoddiadau gyda busnesau angor o 1 Ebrill 2011.

Bydd creu swyddi'n gam allweddol i bennu lefel y buddsoddiad mewn sgiliau gyda busnesau, fel yr amlinellwyd yn Sgiliau Twf Cymru. Bydd cymorth i fusnesau mewn sectorau blaenoriaeth yn cael ei dargedu lle mae'r potensial mwyaf ar gyfer twf a chyflogaeth er mwyn gwneud i'n buddsoddiad mewn sgiliau weithio orau ar gyfer y rheini sydd am ddod o hyd i waith.

Mae'r rhaglen Arwain a Rheoli wedi sefydlu Canolfan Ragoriaeth, "Arweinyddiaeth a Rheolaeth Cymru", i ddangos y manteision "sylfaenol" i fusnesau. I wneud y wybodaeth hon yn fwy hygyrch i fusnesau, mae Arweinyddiaeth a Rheolaeth Cymru wedi datblygu offeryn gwe i sicrhau bod gwybodaeth o safon am effaith yr hyfforddiant a ddarperir yn cael ei darparu i'r cyhoedd bob 3 mis. Caiff ymgyrch radio busnes i fusnes i annog busnesau i ddilyn hyfforddiant Arweinyddiaeth a Rheolaeth ei lansio yn y gwanwyn.

Er mwyn gallu cystadlu yn y byd uwch-dechnoleg hwn, mae angen gweithwyr cyflogedig gyda sgiliau gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg (STEM) ar economi Cymru. Erbyn hyn, mae gan yr Academi Wyddoniaeth Genedlaethol 26 o asiantau darparu ledled Cymru sy'n cynnal amrywiaeth o weithgareddau, gan gynnwys tair canolfan. Mae Techniquest Glyndŵr wedi derbyn grant i gynnal prosiect yn canolbwyntio ar ymgysylltiad gwell rhwng cyflogwyr gydag ysgolion a phobl ifanc. Mae Prifysgol Abertawe, sy'n gweithredu ar ran Sefydliad Gwyddorau Mathemategol a Chyfriniannol Cymru (WIMCS), yn cynnal prosiect peilot ym maes datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer athrawon Mathemateg, Ffiseg a Chemeg ar lefel uwchradd.

Bydd contract gyda Chymdeithas Gwyddoniaeth Prydain yn golygu y bydd o leiaf 600 o brosiectau newydd yn defnyddio Gwobrau CREST[1] yng Nghymru. Mae hyn yn ychwanegol at y cyfleoedd newydd ar gyfer CREST yng Nghymru a gafodd sylw mewn 5 digwyddiad gwahanol yng Nghymru, gan gyrraedd mwy na 120 o athrawon a darthlithwyr. Mae 22 o brosiectau grant wedi'u gwobrwyo'n ddiweddar ac rydym wrthi'n caffael dwy ganolfan bellach ar gyfer cydgysylltu gweithgareddau STEM.

Mae'r Polisi Trawsnewid wedi ysgogi a chefnogi nifer o raglenni newid mewn Sefydliadau Addysg Uwch ac Addysg Bellach ledled Cymru. Cafwyd ymateb arbennig o dda gan y sector Addysg Bellach, gyda phedwar uniad wedi'u cyflawni a dau arall ar waith. Mae ymchwiliadau'n dechrau archwilio cynghreiriau rhwng sefydliadau addysg bellach (SAB) a sefydliadau addysg uwch (SAU). Mae prifysgolion a darparwyr dysgu seiliedig ar waith hefyd wedi cyfrannu at ddatblygu nifer o gynigion allweddol, er enghraifft, datblygu cynlluniau rhanbarthol strategol yn ardal Blaenau'r Cymoedd.

Fel rhan o'r strategaeth *Er Mwyn Ein Dyfodol*, byddwn yn parhau i sbarduno ad-drefnu a chydweithredu, gan gynyddu maint a chwmpas grwpiau ymchwil yng Nghymru. Bydd CCAUC yn cyflwyno dull newydd o ariannu ymchwil o 2011/12 ymlaen. Mae mecanwaith wedi'i sefydlu fel y gall Sefydliadau Addysg Uwch, trwy CCAUC, ymgysylltu'n uniongyrchol â'r Paneli Sector newydd.

---

[1] CREST yw'r cynllun gwobrau cenedlaethol mwyaf ym Mhrydain ar gyfer gwaith prosiect yn y pynciau STEM

**d) Annog arloesi**

Mae amserlen ar gyfer datblygu strategaeth arloesi newydd, ochr yn ochr â pholisi gwyddoniaeth Llywodraeth y Cynulliad, wrthi'n cael ei llunio. I ganiatáu ar gyfer ymgynghoriad llawn a chyfnod yr etholiad, rhagwelir y caiff ei lansio ym mis Hydref 2011. Yn y cyfamser, byddwn yn parhau i sbarduno'r gwaith arfaethedig i annog arloesi.

Mae cynllun busnes "Arloesi ar gyfer Busnes" wedi'i lunio gyda Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru. Mae'r gwaith o gyflawni camau cynnar y cynllun wedi dechrau. Mae'r cynllun yn cynnwys camau i wella gallu busnesau Cymru i arloesi er mwyn gwella eu gallu i gystadlu mewn sectorau allweddol.

Daeth yr adolygiad o Techniums i ben a chyhoeddwyd y casgliadau ym mis Tachwedd 2010. Mae cynnydd sylweddol yn cael ei wneud i gyflwyno'r ffordd newydd o weithio. Bydd y model newydd ar waith erbyn Mawrth/Ebrill. Mae cynlluniau ar gyfer ECM2 ym Mhort Talbot yn cael eu hystyried yng ngoleuni newidiadau i'n cyfleusterau cymorth i fusnesau, yn ogystal ag *Adnewyddu'r Economi*.

Mae swyddogion yn ystyried y manteision y gallai menter Canolfannau Technoleg ac Arloesi y Bwrdd Strategaeth Technoleg eu cyflwyno i Gymru. Mae yna bosibilrwydd y gellir sefydlu canolfan benodol ar gyfer Cymru, neu greu partneriaeth â chanolfannau eraill a fyddai'n cyflwyno budd economaidd i Gymru.

Mae'r cynllun busnes ar gyfer A4B wedi'i ddiwygio i gyflawni'r blaenoriaethau a amlinellir yn *Adnewyddu'r Economi*. Mae'r gwaith o weithredu'r camau cynnar wedi dechrau. Mae adolygiad mapio o lwyddiannau ariannu addysg uwch ym maes arloesi ar waith a bron â'i orffen. Bydd yn helpu busnesau a sefydliadau addysg uwch i gael gafael ar gyllid ymchwil allanol, ac yn cyfrannu at ddatblygu'r strategaethau sector.

Mae ymateb Cymru i'r ymgynghoriad ar FP8 – cylch ariannu nesaf Rhaglen Fframwaith yr UE ar gyfer Ymchwil a Datblygu Technolegol – a lansiwyd ym mis Hydref 2010 wedi'i gyflwyno i'r Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau i lywio papur strategaeth Llywodraeth y DU ar flaenoriaethau'r DU ar gyfer datblygu'r Rhaglen Fframwaith o 2014 ymlaen. Caiff yr ymateb hwn ei gyflwyno i'r Comisiwn Ewropeaidd cyn iddo gyhoeddi ei ddogfen gyntaf ar y Rhaglen Fframwaith nesaf.

**e) Targedu'r cymorth yr ydym yn ei gynnig i fusnesau**

Mae'r holl gyfweliadau ar gyfer paneli sector wedi'u cwblhau. Mae'r panel Diwydiannau Creadigol wedi bod ar waith ers mis Tachwedd.

Mae'r timau sector ar waith, gyda phenaethiaid dros dro lle nad yw penodiadau terfynol wedi'u gwneud. Byddant yn trefnu cyfarfodydd cyntaf y paneli unwaith i'r penodiadau gael eu cadarnhau.

Mae'r cynllun hyfforddi a'r gyllideb gysylltiedig ar gyfer paneli sector wedi'u cymeradwyo, ond mae angen cadarnhau'r Cylch Gorchwyl a'r Telerau Ymgysylltu ar gyfer y paneli sector. Mae swyddogion yn pennu pa waith ymchwil a mapio sydd eisoes wedi'i wneud fel y gellir cwblhau dadansoddiad o fylchau.

Mae'r adolygiad o fforymau sector wedi'i gwblhau, a dylai'r paneli sector ei ystyried fel blaenoriaeth gynnar. Disgwylir argymhellion ar gyfer ymgysylltu â fforymau sector yn y dyfodol yn y gwanwyn.

I nodi dechrau Wythnos Entrepreneuriaeth Fyd-eang, lansiwyd Cynllun Gweithredu Strategaeth Entrepreneuriaeth Ieuenctid (YES) 2011-2015 ac ymgyrch Syniadau Mawr Cymru ar 15 Tachwedd. Mae cynigion bellach yn cael eu datblygu i roi camau gweithredu ar waith, gan gynnwys sefydlu'r Panel Monitro.

Mae gwerthusiad drafft ar gyfer gwasanaethau dechrau busnes wedi'i gyflwyno i swyddogion, sydd bellach yn gweithio trwy argymhellion mewn perthynas â chaffael yn y dyfodol a bod yn gydnaws â rhaglen *Adnewyddu'r Economi*. Caiff hwn ei gyflwyno i Weinidogion ym mis Ionawr 2011.

Mae gwaith wedi'i wneud i ddatblygu Rhwydwaith Hyrwyddwyr Entrepreneuriaeth Busnes, a chyflwynir cynnig ar recriwtio hyrwyddwyr ar gyfer y dyfodol i'r Gweinidog yn ddiweddarach yn y mis.

Mae gwaith wedi'i gwblhau ar y model arfaethedig ar gyfer y Fframwaith Mentora Gwirfoddolwyr Busnesau sy'n cynnwys costau, cynllun marchnata a model darparu manwl.

Mae'r adolygiad allanol o'r Gwasanaeth Canolfan Ranbarthol bellach wedi'i gwblhau; mae'r adolygiad yn ystyried pa mor gydnaws yw'r gwasanaeth â rhaglen *Adnewyddu'r Economi* ac yn cynnig argymhellion ar gyfer darparu'r gwasanaeth yn y dyfodol. Caiff argymhellion eu cyflwyno i Weinidogion ym mis Chwefror 2011.

Mae'r timau rhanbarthol yn cael eu sefydlu a chaiff y Gronfa Blaenoriaethau Rhanbarthol ei lansio ddechrau 2011/12.